# SL(5)701 – Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 3) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012") a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016"). Mae'n diwygio darpariaethau yn y Gorchmynion hynny er mwyn estyn y cyfnod pan fo gofynion penodol wedi eu haddasu neu eu datgymhwyso.

Mae erthygl 2 yn diwygio erthygl 2G(2)(b) o Orchymyn 2012 er mwyn estyn cyfnod yr argyfwng pan fo'r gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio wedi eu haddasu. Mae hefyd yn estyn cyfnod yr argyfwng at ddiben yr amser sydd gan gynghorau cymuned i wneud sylwadau ar geisiadau yr hysbysir hwy amdanynt. Daw cyfnod yr argyfwng i ben ar 8 Hydref 2021.

Mae erthygl 3 yn diwygio erthygl 12(6A)(b) o Orchymyn 2016 er mwyn estyn y cyfnod pan na fo copïau caled o geisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn ofynnol. Daw'r cyfnod hwnnw i ben ar 8 Hydref 2021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar y cynigion hyn. Mae paragraff 5.1 o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

*5.1 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch y cynigion hyn oherwydd y diffyg amser cyn oedd angen gwneud y gorchymyn wrth ragweld yr angen i gynnal y trefniadau dros dro heb doriad.*
*5.2 Mae angen rhoi'r diwygiad ar waith ar unwaith er mwyn estyn y mesurau lliniaru a roddwyd yn eu lle i reoli effeithiau cyfyngiadau COVID-19 o ran teithio ac agor adeiladau ar rannau penodol o'r system gynllunio. Bydd y diwygiad yn golygu bod modd i ddatblygwyr barhau i gyflwyno ceisiadau cynllunio, gan atal achosion rhag cronni, a galluogi caniatâd i gael ei roi wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu codi.*
*5.3 Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi'n fuan ar ateb hirdymor.*

Mae Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, wedi gosod Memorandwm Esboniadol manwl, a pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Disgwylir y cyhoeddir ymgynghoriad cyhoeddus cyn bo hir, fel y nodwyd ym mharagraff 5.3 o'r Memorandwm Esboniadol (gweler uchod).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.